Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Swyddi Gwasanaethau Proffesiynol**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth:** | Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd (FMHLS) |
| **Teitl y Swydd:** | Rheolwr Data |
| **Adran/Pwnc:** | Gwyddor Data |
| **Cyflog:** | Gradd 9: £46,735 i £55,755 y flwyddyn |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos (100% CAL |
| **Contract:** | Rôl am gyfnod penodol o ddwy flynedd yw hon |
| **Lleoliad:** | Mae'r swydd hon yn hybrid, gyda'r prif leoliad ar Gampws Singleton |

**Prif Ddiben y Swydd**

Bydd y Rheolwr Data'n rheoli cylch bywyd, ansawdd, llywodraethiant a rheolaeth weithredol data yn y platfform amgylchedd ymchwil dibynadwy DATAMIND.

Mae'n gyfrifol am gefnogi'r gwaith o gasglu, curadu, a sicrhau ansawdd data, safonau metadata, cydymffurfiaeth â llywodraethiant, a chymorth data defnyddwyr yn amgylchedd ymchwil dibynadwy DATAMIND. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gydag ymchwilwyr, dadansoddwyr, timau technegol, a rhanddeiliaid llywodraethiant i sicrhau bod setiau data'n ddiogel, yn gywir, yn hygyrch, ac yn cydymffurfio â rheoliadau a pholisïau perthnasol.

Cyfrifoldebau allweddol:

- Llywodraethiant a chydymffurfiaeth data
  1. Sicrhau bod yr holl setiau data yn yr amgylchedd ymchwil dibynadwy yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cytundebau rhannu data, a pholisïau llywodraethiant sefydliadol.
  2. Cynnal llwybrau archwilio, dogfennaeth data a mynediad at gofnodion.
  3. Monitro cofrestri archwilio.
  4. Cefnogi Asesiadau Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) ac adolygiadau llywodraethiant.
  5. Monitro a gorfodi gweithdrefnau cadw, archifo, a gwaredu ar ddata.
  6. Cyfathrebu â byrddau llywodraethu gwybodaeth.

- Rheoli data
  7. Cydlynu'r gwaith o gasglu, dilysu, trawsnewid a chynnal setiau data yn ddiogel.
  8. Datblygu a chynnal safonau metadata, geiriaduron data, a dogfennaeth.
  9. Darparu/amddifadu mynediad defnyddwyr.
  10. Gweithredu gwiriadau ansawdd data a datrys materion anghysondeb neu uniondeb.
  11. Rheoli fersiynau a diweddariadau i setiau data ar draws prosiectau.
  12. Cefnogi'r gwaith o reoli datgeliad/adolygiad datgeliad ystadegol.
  13. Rheoli allbynnau a gymeradwywyd.

- Cymorth Rhanddeiliaid
  14. Gweithio gydag ymchwilwyr a thimau prosiect i ddeall gofynion data.
  15. Darparu arweiniad ar safonau data, delio â data'n ddiogel ac arferion gorau.
  16. Cefnogi'r gwaith o fabwysiadu prosiectau a defnyddwyr newydd i'r amgylchedd ymchwil dibynadwy.
  17. Cynorthwyo wrth ymateb i ymholiadau sy'n ymwneud â data, archwiliadau a cheisiadau am adrodd.
- Cymorth technegol a gweithredol

| | |
|---|---|
| | 18. Cydweithio â thimau technegol i optimeiddio llifoedd gwaith data ac awtomeiddio.<br>19. Cefnogi'r gwaith o integreiddio setiau data o sawl ffynhonnell a fformat.<br>20. Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu gweithdrefnau gweithredu safonol (SOP).<br>21. Cynorthwyo wrth brofi a diweddaru'r system, a gwelliannau o ran y broses. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 22. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>23. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>24. Arwain ar wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o’r proffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>25. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/y Gyfarwyddiaeth/y Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt.<br>26. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o'ch gweithgareddau beunyddiol i sicrhau bod arferion gwaith yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Gwerthoedd Arweinyddiaeth** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn unol â chyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd:<br>Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol a disgwylir i bawb ddangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br><br>Yn ogystal, byddwch chi’n gweithredu yn unol â set ddiffiniedig o Werthoedd Arweinyddiaeth:<br>**Rydym yn Broffesiynol**<br><br>Rydym yn datblygu’n bersonol drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac yn defnyddio adborth i wella. Rydym yn creu diwylliant sy’n cyflawni canlyniadau drwy bobl, gan gefnogi, datblygu a herio ein timau i lwyddo. Rydym yn cynnwys pobl wrth ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a galluogi arloesedd a newid, gan wella’r Brifysgol, a pherfformiad timoedd ac unigolion.<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn galluogi ein timau i weithio ar y cyd ac ar draws swyddogaethau i ragori ar anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid. Rydym ni’n gyfrifol am greu amgylcheddau sy’n dangos cydraddoldeb, meithrin ymddiriedaeth, parch a herio. Rydym yn atebol am ddarparu eglurder a chyfeiriad, gan gyfleu’r “darlun mawr” a manteisio ar syniadau a chyfleoedd i wireddu gweledigaeth y Brifysgol.<br><br>**Rydym yn Ofalgar**<br><br>Rydym yn creu amgylcheddau sy’n nodi ac yn deall anghenion Cymuned y Brifysgol (ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a’r cyhoedd) gan roi blaenoriaeth i ddiwallu’r rhain. Rydym yn ysgogi ac yn ysbrydoli ein timau i ddarparu’r safonau uchaf o ofal personol ac, wrth wneud hynny, rydym yn cynnal brand Prifysgol Abertawe.<br><br>Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |
| **Manyleb Person** | **Gwerthoedd Arweinyddiaeth:**<br><br>1. Tystiolaeth o greu diwylliant sy'n cyflawni canlyniadau llwyddiannus drwy bobl, gan ddatblygu a herio timau i lwyddo, ac ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol. |

| | |
|---|---|
| | 2. Y gallu i alluogi timau i weithio gyda'i gilydd ar draws swyddogaethau i ddarparu canlyniadau llwyddiannus sy'n rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid, a chreu amgylcheddau sy'n dangos cydraddoldeb, yn meithrin ymddiriedaeth a pharch, ac yn herio.<br>3. Tystiolaeth o brofiad o greu amgylcheddau sy'n nodi, yn deall ac yn blaenoriaethu diwallu anghenion cwsmeriaid, ac o ysgogi ac ysbrydoli timoedd i ddarparu gofal wedi'i bersonoli o'r safon uchaf.<br><br>**Cymwysterau:**<br><br>4. Gradd mewn gwyddor data, Rheoli gwybodaeth, cyfrifiadureg, Gwybodeg Iechyd neu faes perthynol.<br>5. Mae ardystiadau proffesiynol perthnasol yn ddymunol.<br><br>**Profiad:**<br><br>6. Profiad o reoli data, llywodraethu data, neu rolau rheoli gwybodaeth.<br>7. Dealltwriaeth gref o reoliadau diogelu data, gan gynnwys GDPR.<br>8. Profiad o weithio gyda setiau data sensitif neu gyfrinachol.<br>9. Gwybodaeth am systemau cronfeydd data, safonau data a rheoli meta data.<br>10. Sgiliau dadansoddol a datrys problemau cryf.<br>11. Galluoedd trefnu a dogfennu ardderchog.<br>12. Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol â rhanddeiliaid technegol ac annhechnegol<br><br>**Gwybodaeth a Sgiliau:**<br>13. Sgiliau trefnu rhagorol, y gallu i gynllunio a rheoli amrywiaeth o dasgau ar yr un pryd a threfnu a blaenoriaethu llwyth gwaith personol a llwythi gwaith pobl eraill er mwyn bodloni cerrig milltir prosiect.<br>14. Sgiliau cyfathrebu ardderchog a'r gallu i gyfleu syniadau cymhleth yn gryno ac yn effeithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd drwy gyfryngau gwahanol.<br>15. Y gallu i geisio, dadansoddi a dehongli gwybodaeth gan ystod eang o ffynonellau.<br>16. Lefel uchel o lythrennedd cyfrifiadurol ynghyd â gwybodaeth drylwyr am feddalwedd Microsoft Office.<br>17. Deallusrwydd emosiynol cryf – yn empathig, yn gefnogol, yn ceisio adborth ac yn ei ddefnyddio i gefnogi hunanddatblygiad.<br><br>**Meini Prawf Dymunol:**<br><br>18. Profiad o weithio mewn amgylchedd ymchwil dibynadwy, lleoliad gofal iechyd neu ymchwil, gan gynnwys bod yn gyfarwydd â safonau amgylcheddau ymchwil dibynadwy neu amgylcheddau ymchwil diogel.<br>19. Bod yn gyfarwydd ag SLQ, Python, R, neu offer prosesu data.<br>20. Gwybodaeth am safonau diogelwch gwybodaeth megis ISO 27001 neu Becyn Cymorth DSP y GIG.<br>21. Profiad o blatfformau data'r cwmwl ac isadeileddau ymchwil diogel.<br>22. Dealltwriaeth o brosesau llywodraethu ymchwil a chymeradwyaeth foesegol. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Dara Almeida Medina yn dara.almeidamedina@abertawe.ac.uk |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Athena SWAN
Silver Award
ECU GENDER CHARTER

Stonewall
CYMRU
DIVERSITY CHAMPION

HR EXCELLENCE IN RESEARCH